

7/6/23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Diolch am eich amynedd gyda threfniadau'r daith sgïo. Fel y soniwyd yn y llythyr blaenorol, lle i 45 oedd gyda ni yn wreiddiol ond gyda'r niferoedd o ddisgyblion yn talu blaendal llawer yn uwch na hyn, roeddem yn awyddus fod neb yn colli allan.

Rwy'n falch i ddweud fod darparwr ein taith, Snowstyle, wedi llwyddo i gael gwesty ychwanegol yn ystod hanner tymor Chwefror 2024.

Fe fydd 1 bws o ddisgyblion yn aros yn Golling ac yn sgïo yn ardal Ski Amade ac fe fydd 2 fws o ddisgyblion yn aros yn Tamsweg ac yn sgïo yn ardal Lungau. Mae'n debygol taw disgyblion BI 10-12 presennol (BI 11 a'r 6ed y flwyddyn nesaf) fydd yn aros yn Golling, gyda disgyblion BI 7-9 presennol (disgyblion BI 8-10 y flwyddyn nesaf) yn aros yn Tamsweg.

Gofynnwn yn garedig i chi dalu'r ail daliad am y daith yn yr wythnos nesaf, gyda phob taliad yn y dyfodol yn ddaliadwy ar ddydd Mawrth cyntaf pob mis.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi yn yr ysgol.

Yn gywir,

Rhodri Thomas
Pennaeth yr Adran Addysg Gorfforol